**Pennaeth / Headteacher**
**Mrs I Spowage**

Ysgol Bro Dinefwr
Esgyn ar adain dysg

# Trefniadau dychwelyd i'r ysgol Ionawr 2021
# Return to school arrangements January 2021

| 05 Ionawr 2021 | 05 January 2021 |
|---|---|
| Annwyl Rieni a Gofalwyr<br><br>Rwy'n gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd wedi cael Nadolig diogel ac ymlaciol a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'r gorau i chi am 2021 hapus, iach a diogel.<br><br>Diau y byddwch yn gwybod y cafwyd nifer o ddatblygiadau ynglŷn ag ail-agor ysgolion yn ystod y dyddiau diwethaf hyn ac eisoes mae'r gwyliau fel petai'n gyfnod hir yn ôl!<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno y dylai pob ysgol symud i ddysgu ar-lein hyd 18$^{fed}$ Ionawr ac ar hyn o bryd rydym yn rhoi cwricwlwm dysgu o bell at ei gilydd y gallwch ei gyrchu o ddydd Iau 7$^{fed}$ Ionawr.<br><br>**Disgyblion agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol**<br>O ddydd Iau 7$^{fed}$ Ionawr, gall plant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol (dan 12 oed), ddod i'r ysgol. Pe baech am i'ch plentyn ddefnyddio'r ddarpariaeth hon, gofynnir i chi gysylltu â Mr Thomas stuart.thomas@brodinefwr.org.uk<br><br>**Gweithwyr hanfodol:**<br>○ Gweithwyr y gwasanaeth iechyd<br>○ Yr Heddlu<br>○ Gwasanaethau tân, ambiwlans ac achub<br>○ Gweithwyr cyngor hanfodol<br>○ Staff ysgol<br>○ Gwasanaethau cymdeithasol<br>○ Gwasanaethau gofal (diffinnir gweithwyr mewn gwasanaethau gofal fel cartrefi gofal y cyngor, cartrefi gofal preifat, lleoliadau gofal plant a'r rheiny sy'n rhoi gofal cartref yng nghartrefi pobl yn yr awdurdod).<br><br>**Canolfan Cothi**<br>Fel lleoliad arbenigol, bydd Canolfan Cothi ar agor ar gyfer disgyblion agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, ond dim ond pan dan amgylchiadau lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Bydd Mrs Lloyd a'i thîm yn cysylltu'n uniongyrchol â rhieni / gofalwyr disgyblion sy'n mynychu Canolfan Cothi i drafod eu hanghenion. | Dear Parents and Carers<br><br>I hope that you and your families have had a safe and restful Christmas and I would like to take this opportunity to wish you all the best for a happy, healthy and safe 2021.<br><br>You will no doubt be aware that there have been a number of developments with regard to school re-opening over the last few days and the holiday seems rather a long time ago already!<br><br>The Welsh Government has agreed that all schools should move to online learning until January 18$^{th}$ and we are currently putting a remote learning curriculum together for you to access from Thursday 7$^{th}$ January.<br><br>**Vulnerable pupils and the children of critical workers**<br>From Thursday 7$^{th}$ January, vulnerable pupils and the children of critical workers (under 12s), may attend school in person. Should you need your child to access this provision, you are requested to contact Mr Thomas stuart.thomas@brodinefwr.org.uk<br><br>**Critical workers:**<br>○ Health service employees<br>○ Police<br>○ Fire, ambulance and rescue services<br>○ Essential council workers<br>○ School staff<br>○ Social services<br>○ Care services (workers in care services are defined as the council's care homes, private care homes, childcare settings and those providing home care in people's homes within the authority).<br><br>**Canolfan Cothi**<br>As a specialist setting, Canolfan Cothi will remain open for vulnerable pupils and the children of critical workers, however only under circumstances where it is safe to do so. Parents/Carers of pupils who attend Canolfan Cothi will be contacted directly by Mrs Lloyd and her team to discuss their needs. |

**Dysgu ar-lein hyd 18fed Ionawr**
O ddydd Iau, 7fed Ionawr, byddwn yn darparu addysg amser llawn o bell i bob myfyriwr arall. Lle'n bosibl, bydd pob gwers yn fyw. Recordir pob gwers er mwyn diogelu disgyblion a staff. Bydd hyn hefyd yn golygu y gall disgyblion gyrchu gwersi maent yn eu methu neu ail-ymweld â sesiynau i adolygu'r gwaith a wnaethpwyd.

Bydd myfyrwyr yn medru cyrchu gwersi trwy eu cyfrifon Microsoft Teams. Ceir manylion llawn ar wefan yr ysgol – https://brodinefwr.org.uk/

Rhaid i bob disgybl ymddwyn mewn modd parchus wrth gyrchu eu gwersi ar-lein. Rhaid iddynt wrando a chymryd cyfarwyddyd gan eu hathrawon yn y gwersi.

Pe bai plentyn yn arddangos ymddygiad annerbyniol neu amhriodol ym marn yr athro, bydd yr athro'n dilyn systemau ymddygiad yr ysgol, gan roi rhybudd, cysylltu â rhieni os oes angen, a chofnodi digwyddiadau ar SIMS.

**Amseru'r Gwersi**
Mae llawer o fyfyrwyr yn cael trafferth cadw at yr un lefel o ffocws ar-lein o'i gymharu â pham maent yn yr ystafell ddosbarth am ei bod yn haws i rywbeth dynnu eu sylw adref. Am ei bod yn ddigon anodd canolbwyntio am gyfnod hir, bydd amser y gwersi fel a ganlyn:
09.30 – 10.00 Cofrestru
10.00 – 10.45 Gwers 1
10.45 – 11.00 Egwyl
11.00 – 11.45 Gwers 2
11.45 – 12.30 Gwers 3
12.30 – 13.30 Cinio
13.30 – 14.15 Gwers 4
14.15 – 15.00 Gwers 5

Hoffwn hefyd eich hatgoffa'n barchus y bydd llawer o athrawon yn cefnogi eu plant eu hunain yn eu cartrefi hefyd yn ystod y cyfnod hwn a dylai disgyblion ond cysylltu â staff yn ystod eu gwersi amserlenedig.

**Llesiant**
yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd am gefnogi llesiant ac iechyd meddwl disgyblion felly byddant yn medru cyrchu gwasanaeth wythnosol, ailgydio gyda thiwtor dosbarth ac adnoddau llesiant eraill (gweler y wefan am fanylion).

Bydd Tiwtoriaid Dosbarth yn cynnal sesiynau Ailgydio/Llesiant yn ystod sesiwn gofrestru Dydd Mawrth a Dydd Gwener rhwng 09.30 a 10.00. Os oes gan ddisgyblion unrhyw bryderon am unrhyw agwedd o ddysgu ar-lein neu faterion ynglŷn â'u llesiant, dylent gysylltu â'r Athro Dosbarth fydd yn sicrhau y cyfeirir eu pryderon at yr aelod staff mwyaf priodol.

**On-line learning until January 18th**
From Thursday 7th January, we will provide full-time remote education to all other students. Wherever possible, all lessons will be delivered live. All sessions will be recorded to safeguard pupils and staff. This will also allow pupils to access lessons that they miss or revisit sessions to review the work covered.

Students will be able to access lessons through their Microsoft Teams accounts. Full details are on the school website – https://brodinefwr.org.uk/

All pupils must behave in a respectful manner when they are accessing their on-line lessons. They must listen to and take direction from their teacher when in class.

If a child demonstrates behaviour that the teacher deems to be unacceptable or inappropriate the teacher will follow the school behaviour systems, with warnings being given, contacting parents if necessary, and logging incidents on SIMS.

**Lesson Timing**
Many students struggle with maintaining the same level of focus on-line as they have when they are in a classroom as it's easier to get side-tracked at home. Because it's difficult enough to concentrate for a long time, the timing of lessons will be as follows:

09.30 – 10.00 Registration
10.00 – 10.45 Lesson 1
10.45 – 11.00 Break
11.00 – 11.45 Lesson 2
11.45 – 12.30 Lesson 3
12.30 – 13.30 Lunch
13.30 – 14.15 Lesson 4
14.15 – 15.00 Lesson 5

Please can I respectfully remind you that in many cases, teachers will also be supporting their own children at home during this period and pupils should only contact staff during their timetabled lessons.

**Wellbeing**
During this time, we also want to support pupils' wellbeing and mental health so they will be able to access a weekly assembly, form tutor check-in and other wellbeing resources (see website for details).

Form Tutors will be holding Check-in/Wellbeing sessions during the Tuesday and Friday Registration session between 09.30 and 10.00. If pupils have concerns regarding any aspect of on-line learning or issues regarding their wellbeing, they should contact their Form Tutor who will ensure that their concerns are directed to the most appropriate member of staff.

**Cefnogaeth Bugeiliol a Llesiant**
Bydd staff Cyfle a’r tîm Bugeiliol yn parhau i ddarparu cefnogaeth llesiant i ddisgyblion a’u teuluoedd yn ystod y cyfnod hwn a byddant yn ailgydio trwy ffonio’r disgyblion sydd fel arfer yn manteisio ar y ddarpariaeth hon. Rydym yn dal yn ymrwymedig i gefnogi ein disgyblion a theuluoedd gymaint â phosibl, felly cofiwch gysylltu â ni os medrwn helpu gydag unrhyw fater.

**Presenoldeb**
Er mwyn monitro ymrwymiad a chefnogi diogelwch disgyblion, bydd athrawon yn cymryd cofrestr o bresenoldeb ar gyfer pob sesiwn.

**Cysylltiadau a chefnogaeth**
Gallaf eich sicrhau y byddwn yn cysylltu â chi gyda diweddariadau os a phan y gwneir unrhyw newidiadau pellach i ddarpariaeth dysgu ar-lein.

Cofiwch barhau i wirio ein gwefan yn rheolaidd gan y byddwn yn postio’r wybodaeth newydd i gyd yma: https://brodinefwr.org.uk Rhoddir diweddariadau ar ein ffrwd Twitter a thudalen Facebook hefyd.

Bydd staff yn swyddfa’r ysgol rhwng 09.00 – 15.00 bob dydd ac wrth gwrs, mae croeso i chi gysylltu â fi’n uniongyrchol trwy e-bost: Ionwen.Spowage@brodinefwr.org.uk

Diolch am eich cefnogaeth ac amynedd parhaol mewn cyfnod anodd iawn i bob un ohonom.

**Pastoral and Wellbeing Support**
Cyfle staff and our Pastoral team will continue to provide wellbeing support for pupils and families during this period and will be checking-in by telephone with pupils who normally access this provision. We remain committed to supporting our pupils and families as fully as possible, so please do contact us if we can help with any matter.

**Attendance**
In order to monitor engagement and to support safeguarding of pupils, teachers will be taking a register of attendance for all sessions.

**Contacts and support**
I assure you that we will be in touch to update you if and when any further changes are made to provision of on-line learning.

Please make sure that you continue to check our website regularly as we will posting all new information here: https://brodinefwr.org.uk. Updates will also be posted on our Twitter feed and Facebook page.

The school office will be staffed between 09.00-15.00 every day and you are of course welcome to contact me directly via email: Ionwen.Spowage@brodinefwr.org.uk

Thank you for your continued support and patience at what is proving to be a very difficult time for us all.

Yn gywir / Yours sincerely



Ionwen Spowage (Mrs)
Pennaeth / Headteacher

**Ysgol Bro Dinefwr,** Heol Myrddin, Ffairfach, Llandeilo, Sir Gâr SA19 6PE Ffôn: 01558 824800